FareShare Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

# Cynnwys


1 Ein Rôl

2 Datganiad yr Ymddiriedolwyr

3 Ein Llwyddiannau

4 Partneriaethau a Digwyddiadau


6 Caffael Bwyd Lleol

7 Gwirfoddoli a Chyflogadwyedd

8 Effaith a Gwerth

9 Adolygiad Ariannol

10 Dogfen Lywodraethu a'r Cyfansoddiad




BAKED BEANS
BAKED BEANS
BAKED BEANS
BAKED BEANS
Golden Sun


DENVER
fareshare.cymru
FareShare
Cymru
South Wales
FareShare
ASDA
FIGHT HUNGER
FareShare
Cymru



# Ein Rôl

Mae FareShare Cymru o'r farn na ddylid gwastraffu unrhyw fwyd da. Rydym yn ail-ddosbarthu bwyd dros ben da i elusennau a grwpiau cymunedol er mwyn iddyn nhw ei ddefnyddio i baratoi prydau.

Ein nod ydy cynnig cymorth i'r mudiadau lleol hynny sy'n bwydo'r rheiny sydd mewn angen, gan hefyd gynnig ateb cadarn yn foesegol, amgylcheddol ac yn economaidd i'r diwydiant bwyd.

Dyma ein hamcanion gweithredol ar gyfer 2022/23:

- Ailgyfeirio 900 tunnell o fwyd dros ben
- Cynnig bwyd i 225 o aelodau bwyd cymunedol drwy gydol y flwyddyn
- Caniatáu arbedion amcangyfrifedig o £1.3 miliwn i'r trydydd sector yng Nghymru
- Cyfrannu tuag at 2.1 miliwn o brydau bwyd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
WcVA CGGC
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Rydym yn ddyledus i Lywodraeth Cymru, Sefydliad Moondance, Sefydliad Waterloo a'r Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi am eu cymorth ariannol, ac i'r nifer fawr o fusnesau ac unigolion am eu cyfraniadau. Buasai ein holl waith wedi bod yn gwbl amhosibl heb eu cymorth nhw.

**Swyddfa Gofrestredig a Chyfeiriad Gweithredu**
Uned S5, Parc Busnes Capital
Caerdydd CF3 2PU
Rhif Ffôn: 02920362111
E-bost: info@fareshare.cymru
Gwefan: www.fareshare.cymru

**Social media:**
@FareShareCymru on Twitter & Instagram
Facebook.com/FareShareCymru
linkedin.com/company/FareShareCymru

# Trustees Statement

Fel y mae ein hadroddiad 2022/23 yn nodi, bu'r flwyddyn yn un o newid a datblygiad parhaus. Byddem yn awgrymu hyn am ddau brif reswm. Yn gyntaf, yr argyfwng costau byw a wnaeth arwain at alw digynsail am ein gwasanaethau yn ogystal â her wirioneddol o ran ein cyflenwadau bwyd lle'r oedd angen i'n tîm fwrw iddi i gynnig ymateb rhagweithiol. Yn ail, bu gofyn inni fynd ati i addasu prosesau, strwythurau a strategaethau er mwyn sicrhau llwyfan cadarn a fydd yn ein cynnal yn y tymor canolig i'r tymor hirach. Ar gychwyn 2023/24, bydd yr ymddiriedolwyr yn mynd rhagddi i lunio strategaeth newydd sy'n adlewyrchu'r amgylchedd a'r farchnad newidiol rydym yn gweithredu ynddyn nhw.

Yn ystod 2022/23 bu gwaith Fareshare Cymru yn fwyfwy pwysig ac yn gwbl hanfodol yng nghymunedau ledled Cymru. Daeth pwysigrwydd newid mewn hinsawdd ac felly ein hamcan amgylcheddol o leihau gwastraff bwyd, yn fater cynyddol brys i'r wlad fynd i'r afael â hi. O ran y nod hon, gallwn ymfalchïo yn yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni ac, fel mae'r adroddiad yn ei grybwyll, yr hyn wnaethon ni ei gyflawni a'i gynnig mewn gwirionedd. Daeth yr argyfwng costau bwyd yn fwyfwy amlwg yn ystod y flwyddyn a gan hynny, roedd yn bwysicach nac erioed i deuluoedd ac unigolion allu manteisio ar fwyd fforddiadwy o safon – sef un o'n hamcanion cymdeithasol allweddol. Eto, aeth Fareshare Cymru i'r afael â'r her a llwyddo – yn llythrennol yn ein hachos ni, gan ailgyfeirio 1,500 tunnell o fwyd sydd gyfwerth â 3.5 miliwn o brydau i bobl fregus.

Fel ymddiriedolwyr, rydym yn falch ac yn ddiolchgar dros ben i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n helpu i gyflawni hyn – maen nhw'n caffael, yn derbyn, yn storio ac yn dosbarthu'r bwyd yn ogystal â rheoli timau, mireinio prosesau, sicrhau bod ein systemau o safon ac yn ddiogel a rheoli'r cyllid yn ofalus. Rydym yn fudiad cymharol fach yn y bôn ond nid ydym yn tanseilio amser ac ymdrech pawb ynghlwm i sicrhau bod Fareshare Cymru yn llwyddo i gyflawni ei nodau.

Mae'r cyfrifon blynyddol sydd wedi'u paratoi gan Azets yn cyflwyno archwiliad diamod sy'n cael ei groesawu ac sy'n adlewyrchu gwaith da'r tîm cyllid a rheoli. Mae sefyllfa ariannol y mudiad yn dal yn sefydlog, gan barhau i ddibynnu ar incwm gan ein haelodau bwyd cymunedol rydym wir yn eu gwerthfawrogi a chyllid gan grantiau, gyda diolch arbennig i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i chwarae rôl annatod yn cynorthwyo i osod strategaeth, craffu'n effeithiol ynghylch ein cyflawniad, gweithrediadau a rheolaeth ariannol. Gallwn hefyd gynnig cymorth a chyngor defnyddiol pan fo'i angen.

Mae'n dal yn fraint bod yn rhan o deulu FareShare, sydd wrth gwrs yn cynnwys FareShare UK a'r rhwydwaith ledled y DU. Rydym yn falch o weld ein bod yn parhau i gyflawni ein hamcanion amgylcheddol a chymdeithasol ac rydym yn edrych ymlaen at ddal ati i gymryd rhan a chyfrannu yn ystod 2023/24.

*Ymddiriedolwyr FareShare Cymru*

# Ein Llwyddiannau

Bu 2022/23 yn flwyddyn llawn newid a datblygu, wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ar lawer un ledled Cymru. O ganlyniad bu cynnydd yn y galw am ein gwasanaeth. Soniodd 93% o'r grwpiau cymunedol a'r elusennau rydym yn eu gwasanaethu yng Nghymru bod y galw am eu gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol (Arolwg Effaith Blynyddol FareShare).

Bu hefyd yn flwyddyn heriol i'r diwydiant fwyd gyda chyfuniad o faterion byd-eang a chenedlaethol y tu hwnt i'n rheolaeth yn effeithio ar y cyflenwad o fwyd dros ben. Ymysg y materion hyn oedd y rhyfel yn yr Wcráin; materion cyflenwi byd-eang megis diffyg llafur a chost tanwydd; y diwydiant bwyd yn wynebu costau trafferthus a heriau gyda'r gadwyn gyflenwi wedi'u gwaethygu gan gwymp Brexit; masnachwyr yn lleihau'r nifer o linellau ac yn dosbarthu mwy o gynnyrch i siopau'n gyflymach i geisio sicrhau bod mwy o gynnyrch ar gael ar y silffoedd; yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd mewn costau ynni ar gyfer busnesau bwyd; a thywydd eithafol.

Gan hynny, rydym wedi treulio amser eleni yn bwrw golwg ar atebion i'n helpu i fanteisio ar ragor o fwyd dros ben. Bydd yr atebion hyn yn fodd inni fuddsoddi yn ein gallu i gymryd yr awenau dros fwyd sy'n anoddach ei drin a chynyddu ein gallu gweithredu mewn meysydd eraill. Yn 2022-23 bu inni lwyddo i ennill cyllid i ategu ein buddsoddiad a dod o hyd i warws addas.

# Bwyd wedi'i Ailddosbarthu

Er gwaethaf yr heriau yn 2022/23 fe lwyddodd FareShare yng Nghymru i ailddosbarthu 1482 tunnell o fwyd, gyda 858 tunnell o hwnnw'n fwyd dros ben. Mae cyfanswm y bwyd a ddosbarthwyd yn gyfwerth â dros 3.5 miliwn o brydau i bobl fregus yn Ne Cymru.

# Organisations We Support

Yn ystod 2022-23, bu inni gefnogi 201 o fudiadau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Torfaen, Bro Morgannwg, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin. Hefyd fe aethom ati i ddanfon bwyd yng Nghaerfyrddin am y tro cyntaf, gan gefnogi mudiadau yng ngorllewin a gogledd Sir Gaerfyrddin. Yng Ngogledd Cymru, bu i ein partneriaid, FareShare Glannau Merswy gefnogi 33 mudiad ledled Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

Rydym yn cydweithio gydag ystod eang o fudiadau, sy'n cynnig bwyd i gefnogi eu cymunedau mewn sawl gwahanol ffordd. Ymysg ein haelodau mae pantrïau cymunedol, hosteli i'r digartref a chartrefi preswyl, cymdeithasau tai, cydweithfeydd bwyd, caffis cymunedol, clybiau cinio a rhaglenni coginio, gwasanaethau cymorth gan eglwysi, mosgiau, ysgolion a chanolfannau cymuned a mwy. Mae'r holl fudiadau hyn yn cynnig cymorth a gwasanaethau hanfodol sy'n diwallu anghenion penodol eu cymunedau. At hyn, mae amrywiaeth y gwasanaethau gan ein haelodau ledled Cymru'n anhygoel.

PYmysg ein Haelodau mae: antri ACE, Canolfan Al-Ikhlas, Arts Factory, Canolfan Allestyn Cymuned Barc, Canolfan Galw Heibio Blaen-y-Maes, Canolfan Gymunedol Bryncethin, Cadfield Van, Caffi Tyfu – Barod, Canolfan er Mentergarwch Affricanaidd, Clwb Cinio Corneli a'r Fro, Angylion Cwtch Y Fenni, Cysylltiad Cymunedol Duffryn, Canolfan Gymunedol @Duffryn, Y Sefydliad Defnydd, Cynghrair Cymunedol FAN, Cymdeithas Cymunedol Coed Pinwydd, FoodCycle – Casnewydd, Foothold Cymru, Partneriaeth Garnsychan, Cymdeithas Cymunedol Gilfach Goch, Ysgol Feithrin Trelluest, Hope Church Merthyr, Include Hub, Prosiect Bwyd Llanbedr Pont Steffan, Cyngor Cymuned Llannon, Ysgol Gynradd Maindee, Merthyr Tydfil Institute for the Blind (MTIB), Myrtle House, Eglwys y Bedyddwyr Noddfa, Canolfan Gristnogol Oakdale, Ysgol Gynradd Cwm Ogwr, Pentrebane Zone, River Church Wales, Fforwm Rhymni, Eglwys Efengyl Sharon Fall, Neuadd Eglwys St. Gwladys, Gwasanaeth Dydd St John, Fferm Gymunedol Abertawe, Canolfan Tavs Caerdydd, Teen Challenge Hope House, The Bridge Mentoring Plus Scheme, Y Ganolfan Ieuenctid Cefn Hengoed, Threshold DAS Limited, Ysgol Gynradd Trinant, UK Islamic Mission (I care Newport) Food Project, Canolfan Gymunedol Van, Victory Grocery Store, Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau Whiterose, Ysgol Gynradd Llandeilo

"Mae'n hanfodol ar gyfer nifer o'r ciniawyr hŷn a fyddai ddim yn mentro o'u cartrefi fel arall o bosibl. Mae'n debyg y byddai hyn yn amhosibl heb Fareshare."
**Liam Turner, Cogydd Gwirfoddol yng Nghlwb Cinio Corneli**

"Mae FareShare yn bodloni diffyg defnyddiol, byddai'n anodd ac yn ddrud iawn pe bai gofyn inni gynnig y gwasanaeth ein hunain a ni fyddai modd inni ymweld â'r holl fannau hyn i gaffael yr holl fwyd sydd ei angen arnom"
Lee Thomas, Strategaeth Bryncynon

# Partneriaethau a Chydweithio

Eleni bu inni lwyddo i sicrhau effaith mwy fyth ledled Cymru gyda diolch i'n partneriaethau. Bu inni barhau i gydweithio gyda FareShare Glannau Merswy i ddosbarthu bwyd yng Ngogledd Cymru, gan gynyddu'r nifer o fudiadau rydym ni'n eu cefnogi yno. At hynny, bu inni feithrin partneriaeth gyda bwyty yng Nghaerfyrddin, the Warren a champws Dewi Sant Prifysgol y Drindod Cymru yng Nghaerfyrddin, er mwyn cychwyn ar gam cyntaf ein hehangiad yng Ngorllewin Cymru. Gyda diolch i'r bartneriaeth hon, bu modd inni ailddosbarthu bwyd i grwpiau yn Llanelli a Chaerfyrddin. Fel rhan o'r gwaith i ehangu ein gwasanaeth yng Ngorllewin Cymru, bu inni gynnal digwyddiadau cwrdd a chyfarch ar gyfer Aelodau Bwyd Cymunedol arfaethedig yng Ngheredigion a Sir Benfro.



Bu inni gydweithio gyda disgyblion Ysgol Reolaeth Cranfield, Ysgol Fusnes Henley a Phrifysgol Caerdydd i ymchwilio a llunio adroddiadau ar ein cyfer ynghylch Effeithlonrwydd Gweithredol / Cyflogadwyedd (Cranfield), codi arian (Henley) a datblygu busnes (Caerdydd).

Bu i'r Wild Water Group gyfrannu 24 o leoedd paled yn rhad ac am ddim inni, er mwyn inni allu storio ein cynnyrch bwyd wedi rhewi. O ganlyniad, roedd modd inni dderbyn mwy o fwyd wedi rhewi heb orfod poeni am le i'w storio. Gan hynny, bu inni lwyddo i fodloni anghenion y rheiny rydym yn eu cefnogi. Bu inni hefyd gydweithio gydag Amgueddfeydd Cymru i annog stondinwyr Gŵyl Fwyd San Ffagan i gyfrannu unrhyw fwyd dros ben.

Bu i'r ffotograffydd Tony Charles arddangos gwaith FareShare Cymru ar y cyd â thri o'n Haelodau Bwyd Cymunedol mewn arddangosfa ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a oedd ar waith am bythefnos yn ystod Chwefror 2023. Bu inni hefyd gydweithio gydag Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ar brosiect mapio ar gyfer De Cymru, gan fwrw golwg ar leoliad prosiectau bwyd, natur y prosiect a'r buddiolwyr.

Hefyd bu inni fwrw iddi gyda gwaith cyffrous gan gynnal astudiaeth ymarferoldeb ynghylch Cegin Ailddosbarthu Cymru ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro wedi'i ariannu gan SBRI. Ymhlith y mudiadau eraill oedd yn cydweithio ar y prosiect oedd Prifysgol Caerdydd, Dietegwyr Caerdydd a'r Fro a Zero 2 Five.

## Digwyddiadau a Chynrychioli

Rydym yn aelodau gweithredol o sawl grŵp gan gynnwys Clymblaid Gwrth-dlodi Cymru, Grŵp Trawsbleidiol ynghylch Tlodi, Hinsawdd Cymru, Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Grŵp Gwaith Tlodi Bwyd Caerdydd, Rhwydwaith Masnach Bwyd Cymuned Caerdydd, Grŵp Llywio Mannau Bwyd Cynaliadwy Torfaen, Grŵp Llywio Mannau Bwyd Cynaliadwy y Fro a Grŵp Llywio Mannau Bwyd Cynaliadwy RCT, Rhwydwaith Ffyniant Bwyd Merthyr, Rhwydwaith Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr, Bwyd RCT, Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin, Rhwydwaith Bwyd Abertawe, Rhwydwaith Bwyd Caerffili, a Phrosiect Manteisio ar Fwyd Llanilltud Fawr.

Eleni bu inni achub ar sawl cyfle i ledaenu'r neges am ein gwaith yn FareShare Cymru a cheisio dod o hyd i atebion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd a gwastraff bwyd. Bu inni gynnal cyflwyniad yn y Clwstwr Cynaladwyedd Bwyd a Diod a Bord Gron Costau Byw Busnes yn y Gymuned (BITC) ynghyd â mynd i gynhadledd Mannau Bwyd Cynaliadwy Cymru, cynhadledd Tueddiadau'r Dyfodol ar gyfer y Diwydiant Pobi a'r Sioe Frenhinol. At hyn, bu inni gyflwyno tystiolaeth at ymholiad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ynghylch dyledion a'r argyfwng costau byw. Bu inni gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys un ar gyfer y Bil Bwyd Drafft (Cymru) a chynnal digwyddiad ymylol fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru.

# Caffael Bwyd Lleol

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, bu modd inni fynd ati i feithrin perthnasau newydd arbennig gydag ystod o fusnesau bwyd, er mwyn cynnig ateb moesegol i'r heriau ynghlwm â bwyd dros ben ar gyfer nifer o fusnesau Cymru.

Bu'n bleser cydweithio gyda phartneriaid bwyd newydd megis Peter's Food Service, Memory Lane Cakes, Tillery Valley Foods a Lewis Pie and Pasty Co. Bu i'w cyfraniadau bwyd dros ben o safon gynnig llinell gymorth ar gyfer sawl un o'n haelodau elusennol a grwpiau cymunedol. Yn ogystal â meithrin perthnasau lleol, bu modd inni gynnig gwaith rheoli perthnasau lleol ar gyfer partneriaid FareShare cenedlaethol megis Booker a Tesco er mwyn manteisio ar fwy fyth o fwyd dros ben a chyflawni rhagor o waith buddiol.

# Cronfa Bwyd Dros Ben ac Amcan Cymru

Ym mis Awst 2022, bu i Lywodraeth Cymru gadarnhau y byddai cronfa Bwyd Dros Ben ac Amcan Cymru yn parhau tan 2025, er mwyn inni allu manteisio ar ragor o fwyd dros ben gan gyflenwyr allai gefnogi'r elusennau a'r grwpiau cymunedol rydym yn cydweithio gyda nhw ledled Cymru i gynnig prydau iach a maethlon i'w defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gronfa yn cynnig cyfle i FareShare Cymru i gydweithio gyda gwneuthurwyr a chynhyrchwyr bwyd yn ogystal â ffermwyr i gaffael bwyd dros ben 'fyddai'n anodd manteisio arno' fel arall. Aethom ati i gyflawni rhagor o waith marchnata ar gyfer y gronfa ar gyfryngau a safleoedd hysbysebu sy'n ymwneud â bwyd yn benodol. Hefyd buom yn cydweithio gyda brandiau sydd wedi hen ennill eu plwyf megis Puffin Produce, a thyfwyr annibynnol bach i'w ysgogi i gynhyrchu nifer fawr o gynnyrch ffres i rannu gyda rhwydwaith FareShare Cymru.

# FareShare Go

Mae FareShare Go yn cysylltu mudiadau nid er elw gyda'u harchfarchnadoedd lleol i gasglu bwyd dros ben sydd heb ei werthu ar ddiwedd y dydd gan ddefnyddio rhaglen Foodiverse ar eich ffôn. Mae'n brosiect rhad ac am ddim sy'n cydweithio gyda 4 prif adwerthwr ledled Prydain; Tesco, Waitrose, Asda a Booker a dau fwyty cadwyn; KFC a Nando's. Yn ystod 2022/23, fe ail-ddosbarthwyd 876.16 tunnell o fwyd ledled Cymru.



# Gwirfoddoli a Chyflogadwyedd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i 130 o bobl wirfoddoli gyda ni, gan gynnig dros 14.5 mil awr o'u hamser. Roedd y rhan helaeth o'r rhain yn gwirfoddoli'n rheolaidd yn y pencadlys, gan gynnwys gyrwyr cludo bwyd, cynorthwywyr warws a chynorthwywyr gweinyddol. Hefyd bu nifer o wirfoddolwyr ychwanegol yn ein cefnogi o bell gyda gwaith cyfieithu, marchnata ac ymchwil ynghyd ag ein myfyriwr marchnata a chyfathrebu ar leoliad gwaith.

Mae'n rhaid inni glodfori ein gwirfoddolwyr am eu hagwedd gadarnhaol dros ben yn ystod amseroedd heriol yn sgil effeithiau Covid a'r lefelau bwyd oedd yn amrywio. Bu'r gwirfoddolwyr yn hynod gefnogol a hyblyg, gan fynd y tu hwnt i'r galw i ddosbarthu bwyd ar gyfer y rheiny mewn angen. Bu inni barhau gydag ein gwaith cyflogadwyedd gan gwblhau ein hail rownd o leoliadau gwaith KickStart. Hoffem estyn diolch i hyfforddiant FLT De Cymru a'r De Gorllewin a Careers Change Wales am eu cymorth gyda chynnig hyfforddiant. Rydym yn gobeithio parhau i gynnig hyfforddiant i'n gwirfoddolwyr yn ogystal â chymorth i ddod o hyd i waith os oes ei angen arnyn nhw. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae o leiaf 7 o'n gwirfoddolwyr wedi mynd rhagddi i ddod o hyd i waith.

Bu modd inni adfer ac ail-lansio ein gwasanaeth gwirfoddoli corfforaethol, gan gynnig diwrnodau tîm ddeuddydd yr wythnos gyda sawl un yn achub ar y cyfle. Bu inni gynnal 15 diwrnod gwirfoddoli corfforaethol gyda 66 o weithwyr yn manteisio ar brofiad gwirfoddoli gyda ni.



# Impact and Value

Bu inni gyfrannu at leddfu tlodi, hyrwyddo addysg gyhoeddus a chadw, amddiffyn a gwella'r amgylchedd ffisegol a naturiol drwy...

**Ailddosbarthu**
**1482 tunnell**
**o fwyd, gyda 858 tunnell o hwnnw'n fwyd dros ben**

**Darparu dros**
**3 Milliwn**
**brydau i phobl agored i niwed**

**Cefnogi**
**234**
**elusennau a sefydliadau lleol**

**Arbed**
**200 tunnell**
**o darthiadau CO2**

**130**
o wirfoddolwyr wedi cynnig dros 14,656 awr o'u hamser yn Ne Cymru. Aeth 7 o'r gwirfoddolwyr ati i ddod o hyd i waith llawn amser.

**19**
o gyrsiau hyfforddiant wedi'u cyflawni a chymwysterau wedi'u hennill gan ein staff, unigolion fu'n rhan o'r cynllun KickStart a gwirfoddolwyr yn Ne Cymru, gan gynnwys Diogelwch Bwyd Lefel 2 a gyrru Wagen Fforch Godi.

*Diolch i FareShare Glannau Merswy am ain cefnogi yng Ngogledd Cymru*

# Adolygiad Ariannol


Yn ôl yr adroddiad ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 22-23, bu i'n hincwm ostwng oddeutu 30% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y lleihad hwn mewn incwm yn bennaf yn sgil absenoldeb grant eithriadol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 21-22 gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â thlodi bwyd.


Fodd bynnag, fe lwyddodd y mudiad i ennill grantiau gan ffynonellau sylweddol eraill, gan gynnwys y Sefydliad Moondance, y Sefydliad Waterloo a Chynllun Cymunedol Gwarediadau Tirlenwi, a wnaeth helpu i ategu ei incwm. Fe lwyddodd y mudiad hefyd i leihau eu gwariant o 33%, a hynny'n bennaf yn sgil y gwariant sylweddol ar fentrau sy'n ymwneud â'r grant eithriadol yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Ar y cyfan, er bod y gostyngiad mewn incwm yn her, fe lwyddodd i addasu a pharhau gyda'i waith gyda chymorth ffynonellau cyllid eraill.


Mae ein ffioedd aelodaeth yn parhau i gynyddu oddeutu 10%.

## Ein Cyllid

Cyfanswm incwm am y flwyddyn oedd £1,242,135, a chyfanswm y gwariant oedd £818,832.




Mae ein cyfrifon llawn ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ynghylch y cyfrifon hynny ar wefan y comisiwn elusennau.

# Dogfen Lywodraethu a’r Cyfansoddiad

FareShare Cymru ydy enw masnachu Food Redistribution Wales Ltd. Mae’n gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant (rhif. 07198367) ac mae wedi’i gofrestru gyda’r Comisiwn Elusennau fel elusen yn Lloegr a Chymru (rhif. 1141781). Fe gorfforwyd FareShare Cymru yn 2010 ac mae wedi’i lywodraethu gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu gafodd ei fabwysiadu ar Fawrth yr 22ain 2010. Bu inni gychwyn ar ein gwaith ym mis Gorffennaf 2011.

# Strwythur, rheoli a llywodraethu

## Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr

Simon Harris – Cadeirydd    Chris Bray
Emma Waldron (tan Ebrill 2022)    Hitesh Vadgama
Yr Athro John Hunt    Stephen Milburn
John Belcher (o Fai 2022)

## Tîm Staff

Prif Swyddog Gweithredol – Sarah Germain
Pennaeth Gweithrediadau – Gerry Molan
Pennaeth Datblygu – Katie Padfield
Rheolwr Cyllid – Sarah Williams
Swyddog Prosiect – Heather Thomas
Cydlynydd Gwirfoddoli a Chyflogadwyedd – Phil Pinder
Cydlynydd Aelodau Bwyd Cymunedol – Tom Mogford (tan Fawrth 2023)
Cydlynydd Caffael Bwyd – Simon Stranks
Cydlynydd Marchnata a Chyfathrebu – Georgina Sullivan (tan Ebrill 2022), Macsen Jones (Medi 2022-Mawrth 2023)
Rheolwyr Gweithrediadau Cynorthwyol – Dan Richards (tan Ebrill 2022) Shane Harvey (o Fai 2022), Emma Roberts, Matt Lee, Daniel King, Darren Warbuton

Swyddfa Gofrestredig- Uned S5, Parc Busnes Capital, Caerdydd, CF3 20U

Bancwyr
The Co-operative Bank, P.O. Box 250, Delf House, Southway, Skelmersdale, WN8 6WT
Triodos, Deanery Road, Bristol, BS1 5AS
The Charity Bank Limited, Fosse House, 182 High Street, Tonbridge, TN9 1BE

Archwilwyr – Azets, Tŷ Derw, Lime Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8AB

Rhif Cofrestru’r Cwmni: 07198367 Rhif Cofrestru’r Elusen: 1141781

# Amcanion

Mae amcanion elusennol FareShare Cymru ("Amcanion") wedi'u cyfyngu'n benodol i'r canlynol:

a) lleddfu tlodi a chadw a hyrwyddo maeth da, iechyd da a gwelliant cymdeithasol ymysg pobl sy'n dioddef o drallod cymdeithasol, economaidd neu emosiynol mewn ffyrdd y mae'r Cyfarwyddwyr yn eu barnu'n ddoeth ond yn enwedig trwy:

(i) casglu ac ailddosbarthu bwyd dros ben; a

(ii) annog aelodau'r cyhoedd i gyflawni gwaith gwirfoddol;

(b) hyrwyddo addysg gyhoeddus yn arbennig ond nid yn gyfan gwbl drwy ddarparu hyfforddiant yn y sector gwirfoddol; a

(c) datblygu, er budd y cyhoedd, cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd ffisegol a naturiol drwy leihau gwastraff (yn enwedig gwastraff bwyd) a'i effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

# Budd Cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at ganllaw'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Mae prif waith FareShare Cymru ar drechu tlodi bwyd, cydweithio gydag elusennau lleol a mudiadau cymunedol yn sicrhau budd uniongyrchol a chadarnhaol i nifer o'r bobl sydd wedi'u hymyleiddio mwyaf yng Nghymru (unigolion sy'n ddigartref, di-waith, tlawd ac unig). Mae'r elusen yn ymwneud ag unigolion fel gwirfoddolwyr yn eu gwaith ac mae croeso i holl aelodau'r gymuned fanteisio ar y cyfle, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf. Mae hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr ac eraill i ennill cydnabyddiaeth, gan gynnwys achrediad, am y sgiliau maen nhw wedi'u hennill wrth weithio gyda FareShare Cymru. At hyn, drwy ddefnyddio bwyd dros ben rydym yn lleihau gwastraff a tharthiadau carbon.

# Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ac yn aelodau o'r cwmni elusennol, wedi'u rhestru ar y dudalen flaenorol. Pob blwyddyn, mae un traean o'r ymddiriedolwyr yn ymddeol ond mae croeso iddyn nhw geisio i'w hail-ethol yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu yn y Cyfarfod Blynyddol nesaf. Caiff ymddiriedolwyr eu recriwtio gyda'r ystod o sgiliau a phrofiad sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau llywodraethu cadarn a chynnydd cadarn tuag at genhadaeth ac amcanion yr elusen. Bydd cyfle i ymddiriedolwyr newydd eu penodi gyflawni cwrs cyflwyno sy'n eu hysbysu am eu cyfrifoldebau cyfreithiol ynghyd â pholisïau, prosesau gwneud penderfyniadau, cynllun strategol a pherfformiad ariannol diweddar FareShare Cymru.

Mae'r holl ymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac nid ydyn nhw'n derbyn unrhyw fuddion gan yr elusen. Caiff unrhyw gostau gaiff eu hadennill gan yr elusen eu nodi yn nodyn 10 y cyfrifon.

# Trefniant

Gyda'i gilydd mae'r Ymddiriedolwyr yn ffurfio'r Bwrdd sef corff llywodraethu FareShare Cymru. Bu iddyn nhw gyfarfod pedair waith yn 2021/22. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo cynllun strategol a chyllidebau blynyddol yr elusen yn ogystal â goruchwylio polisïau. Mae'r Bwrdd hefyd yn arolygu materion megis cyllid ac archwilio, risgiau a chynaladwyedd hirdymor.

Mae'r tîm staff, o dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredol, yn gyfrifol dros weithredu'r strategaeth a dros fynd rhagddi i gyflawni'r nodau ac amcanion allweddol.

# Polisi Tâl y Staff

Mae ein hagwedd tuag at dâl staff â'r nod o sicrhau ein bod yn denu a chadw unigolion o'r safon uchaf i gynrychioli ei fuddiannau. Rydym hefyd yn credu mewn gwobrwyo staff yn deg am y swyddi maen nhw'n eu cyflawni a meithrin amgylchedd gweithio cadarnhaol. Rydym o'r farn bod ein cyflogau ac ein hamodau a thelerau'n adlewyrchu hyn.

Mae pobl wedi'u cyflogi yn FareShare Cymru ar sail y sgiliau penodol maen nhw'n ei gynnig ar gyfer eu rôl benodol. Er mwyn sicrhau caiff FareShare Cymru ei gynnal yn llwyddiannus, mae angen ystod o sgiliau a disgyblaethau ac mae angen inni dalu'n briodol er mwyn sicrhau y gallwn fynd ati i recriwtio pobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol.

Mae hefyd gofyn inni gadw'r staff mewn marchnad gystadleuol lle mae modd trosglwyddo'u sgiliau i fudiadau eraill yn y sector gwirfoddol a sectorau eraill. Mae FareShare Cymru'n credu'n gryf mewn ceisio cadw staff ar gyfer yr hirdymor, eu datblygu ac elwa o'u gwybodaeth gynyddol.

Y cyfradd cyflog isaf bob amser yw'r cyflog byw sydd wedi'i bennu gan y Sefydliad Cyflog Byw ac mae'n dwyn i ystyriaeth cyfradd chwyddiant a fforddiadwyedd y mudiad.
Mae cynnydd blynyddol yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr.



# Rheoli Risg

Mae gan FareShare strategaeth rheoli risg sy'n canolbwyntio ar gynnal cofrestr risg. Y Tîm Rheoli a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n adnabod ac yn asesu unrhyw risgiau i ddechrau. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd: maent yn ystyried sut mae'r risgiau yn rhyngweithio a lle i flaenoriaethu camau gweithredu lliniarol.

Mae modd rhannu'r prif gategorïau o risgiau i mewn i'r prif feysydd hyn:

Diogelwch bwyd – Ailddosbarthu bwyd ydy hanfod yr hyn rydym ni'n ei wneud. Mae diogelwch bwyd, olrhain bwyd a sut rydym yn trin bwyd ar y cyfan wrth wraidd ein cenhadaeth a'n enw da. Lliniariad: Mae ein polisïau a dulliau yn ein galluogi i gynnal y safonau uchaf oherwydd byddai unrhyw gamgymeriadau yn peryglu ein hymddiriedaeth ac awdurdod arbenigol yn y diwydiant bwyd

Colli staff allweddol – Mae gan FareShare Cymru dîm bach o staff a byddai colli unrhyw unigolyn allweddol yn arwyddocaol. Lliniariad: Rydym ni'n sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu ymdrin ag amrywiaeth o dasgau. Rhoi cynllun olynu mewn lle.

Sicrhau bwyd dros ben - Rydym ni'n dibynnu'n bennaf ar FareShare y DU ar gyfer ein cyflenwad bwyd. Gall y cyflenwadau bwyd hynny fod mewn perygl o gystadleuaeth fasnachol yn ogystal â defnyddiau eraill fel treuliad anaerobig a bwyd anifeiliaid. Lliniariad: Rydym ni wedi recriwtio Cydlynydd Caffael Bwyd ac yn gweithio'n agos gyda FareShare y DU i leihau rhwystrau at dderbyn bwyd.

Cynhyrchu incwm - Mae cyfran fawr o'n hincwm yn dod o grantiau, y mae llawer ohonynt yn rhai tymor byr. Mae'r ymddiriedolwyr yn aml yn adolygu'r rhagolygon i sicrhau ein bod yn gallu addasu ein gwariant i ymdopi gydag unrhyw newid i'n refeniw arfaethedig. Lliniariad: Rydym ni'n anelu at gynyddu ein cyfran o incwm gwaith dros amser fel sydd i'w weld yng nghynnydd ein tâl aelodaeth. Rydym hefyd yn mynd i'r afael â hyn gyda'n targed polisi cronfeydd wrth gefn o anelu at fod â rhwng chwech i ddeuddeg mis o wariant arferol cyfredol.



Gweithredoedd – Mae FareShare Cymru yn gweithredu stordy prysur gydag offer sydd o bosibl yn beryglus fel wagenni fforch godi ac oergelloedd a rhewgelloedd y mae modd cerdded i mewn iddynt. Mae gennym ni weithwyr sy'n gweithio yn y swyddfa a gwirfoddolwyr allanol sy'n dod i weithio ar ein safleoedd. Lliniariad: Rydym ni'n cynnal llawlyfr iechyd a diogelwch cyfredol ac yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n gyson trwy gynnig rhaglenni hyfforddiant ac anwytho.

Yn ychwanegol at hyn, rydym ni wedi cynnal archwiliadau offer sgriniau arddangos i'n holl weithwyr ac wedi cynnal asesiad risg i weithiwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain yn y storfa, gweithio gartref ac yn teithio ar fusnes gwaith. Mae asesiadau risg presennol wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Mae asesiad risg tân wedi'i gynnal ac rydym wedi ceisio dyfynbrisiau ar gyfer camau adfer.



## FareShare Y DU

Mae FareShare Cymru yn rhan o rwydwaith FareShare y DU. Golyga hyn ein bod wedi mabwysiadu llawlyfr diogelwch bwyd FareShare a'i bolisïau a dulliau HACCP. Rydym ni'n defnyddio System Rheoli Ar-lein Gladys FareShare y DU i gofnodi bwyd sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn ogystal â'u system ar-lein ar gyfer Rheoli Gwirfoddolwyr a Rheoli Aelodau Bwyd Cymunedol. Yn ychwanegol rydym ni'n cytuno i ddilyn eu canllawiau brandio.

## Dull Codi Arian

Eleni daeth ein hincwm o dâl aelodaeth, y llywodraeth, ymddiriedolaethau a sefydliadau, partneriaid corfforaethol ac unigolion. Rydym ni'n ddiolchgar iawn i bob un sy'n ein cefnogi ac am bob rhodd rydym ni'n ei derbyn. Caiff ein holl waith codi arian ei reoli gan ein staff a gwirfoddolwyr. Mae faint o arian rydym ni'n ei godi gan unigolion yn fach iawn (llai na 1%).

Gan fod Virgin Money Giving wedi cau, mae ein dull rhoi rhodd ar-lein bellach drwy JustGiving. Mae gennym ni hefyd dudalen Crowdfunder sy'n annog pobl i roi eu pwyntiau Nectar fel rhodd. Bu gwaith ymchwil ar ba gyfrwng oedd y gorau i'w defnyddio a Just Giving oedd y gorau oherwydd ei hygrededd

Dydyn ni ddim yn cyflogi unrhyw fudiadau codi arian proffesiynol a ni fu unrhyw gŵyn am ein hymarferion neu weithgareddau codi arian yn 2022-23.



# Future Plans - Next Year

Y flwyddyn nesaf ein nod ydy cefnogi mudiadau lleol sy'n bwydo'r rhai mewn angen a hefyd cynnig gwasanaeth sy'n gadarn yn foesol, amgylcheddol ac ariannol i broblemau'r diwydiant bwyd.

Ein hamcanion gweithredol ar gyfer 2023/24 ydy:

- Ailgyfeirio 1200 tunnell o fwyd dros ben ledled Cymru
- Darparu bwyd i 310 o aelodau bwyd cymunedol trwy gydol y flwyddyn ac ar draws Cymru
- Cyfrannu tuag at arbedion amcangyfrifedig o £1.5 miliwn gan y trydydd sector
- Cyfrannu tuag at 2.8 miliwn o brydau bwyd

Fel ymateb i'r galw cynyddol a'r angen inni fynd ati i ymdrin ag amrywiaeth fwy eang o gynnyrch, rydym yn bwriadu cymryd yr awenau dros warws ychwanegol er mwyn cynyddu ein gallu i weithredu.

www.fareshare.cymru
FareShare Cymru ar Instagram,
Twitter, Facebook a Linkedin.

Caiff FareShare Cymru ei gweithredu gan Food Redistribution Wales Ltd.

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1141781 Rhif y Cwmni: 07198367